# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Gynradd Wirfoddol Myfenydd

Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2025

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

# Crynodeb

Mae Ysgol Gynradd Wirfoddol Myfenydd yn blaenoriaethu lles disgyblion yn llwyddiannus. Gyda chefnogaeth cymuned yr ysgol, mae gweledigaeth y pennaeth yn canolbwyntio ar sicrhau bod pob disgybl yn gwneud cynnydd cadarn. Mae'r ysgol yn meithrin partneriaethau yn llwyddiannus, ac yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i rieni gyfrannu at brofiadau dysgu'r disgyblion.

Mae'r cwricwlwm yn hyrwyddo gwerthfawrogiad y disgyblion o'u cynefin ac yn cynnig gweithgareddau amrywiol i'w cymell a'u hysbrydoli. Mae disgyblion yn cyfrannu'n effeithiol at ddatblygiad y ddarpariaeth ac mae ganddynt fedrau gwrando da. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymhwyso eu medrau rhifedd, digidol ac ysgrifennu yn llwyddiannus mewn amrywiaeth o gyd-destunau. Fodd bynnag, mae'r gefnogaeth sydd ar gael i ddatblygu'r disgyblion yn gyfathrebwyr Cymraeg hyderus yn anghyson, ac nid yw'r cyfleoedd i feithrin eu medrau darllen yn ddigon bwriadus.

Mae gan athrawon ddealltwriaeth drylwyr o anghenion pob disgybl ac maent yn defnyddio eu harbenigedd i gefnogi eu dysgu yn effeithiol. Mae'r staff yn cydweithio'n gynhyrchiol gydag amrywiaeth eang o bartneriaid er mwyn cefnogi lles a chynnydd pob disgybl. Fodd bynnag, prin yw'r cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu yn eu hannibyniaeth ac i wneud penderfyniadau am gynnwys a chyfeiriad eu dysgu.

Mae athrawon yn cynnal momentwm y dysgu yn effeithiol, yn monitro cynnydd disgyblion yn graff ac yn rhoi arweiniad ac adborth llafar priodol sy'n helpu disgyblion i wella eu gwaith. Er hyn, prin yw'r cyfleoedd i ddisgyblion fyfyrio'n ddwys ar eu gwaith a gwella safon gwaith estynedig.

Mae hyrwyddo cydweithio agos rhwng arweinwyr ac athrawon wrth hunanwerthuso a chynllunio gwelliant yn sicrhau bod yr ysgol yn datblygu'n bwrpasol.

# Argymhellion a beth sy’n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud tri argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella:**

A1 Gwella medrau llafaredd a darllen disgyblion yn y Gymraeg

A2 Lleihau’r defnydd o fframweithiau parod a darparu cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ddatblygu’n ddysgwyr fwy annibynnol

A3 Gwella cyfleoedd i ddisgyblion ymateb i adborth er mwyn gwneud cynnydd yn eu dysgu

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Adroddiad llawn

Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o’r ysgol, dilynwch y ddolen hon i’r adroddiad llawn.

© Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 02/09/2025